

Annwyl Gwsmer

Ymgysylltu â'n cwsmeriaid – Rhannu eich barn

Swyddfa Bost Dociau Bute
A arferai fod yn: 110 Stryd Bute, Caerdydd, CF10 5AD

Rydym wrth ein bodd yn rhoi gwybod i chi y bydd Swyddfa Bost Dociau Bute, a gaewyd yn annisgwyl, yn cael ei hailagor gennym ddydd Llun 19 Awst 2024 am 13:00. Bydd hyn mewn lleoliad newydd, sef Siop Taaz Cyfyngedig, 199 Stryd Bute, Caerdydd, CF10 5HR, lle caiff ei rhedeg fel un o'n canghennau lleol eu natur.

Hoffem glywed gennych

Rydym yn awyddus i adfer gwasanaethau i'r gymuned hon cyn gynted â phosibl, ac felly rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynlluniau. Mae ailagor y gangen hon mewn lleoliad newydd yn benderfyniad masnachol i Swyddfa'r Post Cyf. ac felly nid ydym yn chwilio am ymateb i'r agwedd hon ar y newid. Fodd bynnag, byddem yn croesawu awgrymiadau am agweddau penodol ar y newid a allai fod o fudd i gwsmeriaid, yn enwedig ynglŷn â'r canlynol:

- A oes gennych unrhyw sylwadau am y mynediad i'r adeilad newydd?
- A oes gennych unrhyw sylwadau am hygyrchedd y tu mewn i'r adeilad newydd?

Mae'r manylion llawn am eich cangen newydd ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn ac yn ein Hyb Ymgynghori. Byddwn yn derbyn sylwadau tan ddydd Iau 25 Gorffennaf 2024. Ni fyddwn yn rhoi ymateb yn unigol i chi, ond bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniadau terfynol.

Gallwch rannu eich sylwadau am ailagor y gangen hon trwy ein holiadur hawdd a hwylus ar-lein ar postofficeviews.co.uk. Wrth fynd i mewn i'r wefan, gallwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i gael hyd i'r cyhoeddiad ar gyfer y gangen hon naill ai drwy enw'r gangen, y cod post, neu god unigryw'r gangen **156611**

Sut i rannu eich barn:

Hyb Ymgynghori (postofficeviews.co.uk)

comments@postoffice.co.uk

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments – D.S. Hwn yw'r cyfeiriad post llawn. Mae eitemau a anfonir drwy Freepost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd pen y daith, ac felly dylech ganiatáu digon o amser.

Eisiau rhoi eich barn i ni yma nawr? Sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa apiau.



Byddwn yn gosod posteri yn y lleoliad newydd i roi'r newyddion da i gwsmeriaid. Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau

cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o'r posteri hyn, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda. Unwaith y cwblheir y cynlluniau, byddwn yn gosod poster yn y gangen a rhoddir gwybodaeth ar ein Canolfan Ymgynghori i amlinellu'r prif sylwadau a dderbyniwyd a'n hymateb iddynt. Os bydd rhaid newid y dyddiad agor am resymau annisgwyl, bydd posteri'n cael eu gosod yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae ein hymgysylltu yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud ag Ymgysylltu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mawr obeithiwn y byddwch yn cefnogi'r gwasanaeth newydd hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

Santosh Samudrala

Santosh Samudrala

Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith

Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Dociau Bute

Taaz Cyfyngedig
199 Stryd Bute
Caerdydd
CF10 5HR

Oriau agor y Swyddfa Bost

Llun – Sad	09:00 - 19:00
Sul	Ar Gau

**Mae yna adegau pan fydd rhaid newid oriau agor cangen.
Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan
www.postoffice.co.uk/branch-finder**

Mynediad

Bydd gan yr adeilad newydd ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.
Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

Cynhyrchion a Gwasanaethau

Bydd dewis tebyg o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd, ac eithrio Arian Teithio Ar Gais (ar wahân i Ewros a Doleri), Yswiriant Teithio ar Gais a Threth Cerbyd.

Cyrraedd yno

Bydd y gangen newydd tua 600 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir gwastad y rhan fwyaf o'r ffordd. Mae modd parcio am amser cyfyngedig wrth ymyl y ffordd gerllaw.

Manwerth

Anrhegion a Nwyddau Groser.

Dyddiad yr agor

Ddydd Llun 19 Awst 2024 am 13:00.

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost Dociau Bute

I gael gwybodaeth ynghylch cynhyrchion sydd ar gael ffoniwch 03457 22 33 44. I gael manylion am werth uchaf trafodion, siaradwch â'r sawl sy'n rhedeg y Swyddfa Bost.

	Y Gangen Newydd
Post	
Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth	✓
Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af ac 2il Ddosbarth)	✓
Stampiau arbennig (Stampiau Nadolig yn unig) a labeli post	✓
Signed For	✓
Special Delivery	✓
Dychweliadau siopa o gartref	✓
Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr	✓
Parcelforce Express a chontract	✓
Post Lluoedd Prydain (BFPO)	✓
Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Tracked a Signed)	✓
Parseli rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg	✓
Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol	✓
Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol)	✓
Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol	✓
Local Collect	✓
Drop & Go	✓
Codi arian, adneuo a thaliadau	
Holl fancio personol a busnes o ran codi arian, adneuo, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (cerdyn, cod bar neu â llaw)	✓
Archebion Post	✓
Moneygram	✓
Rhoi newid	✗
Talu biliau (cerdyn, cod bar neu â llaw)	✓
Adlenwi allweddi	✓
Gyrru	
Treth cerbydau	✗
Teithio	
Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw	✓
Arian Teithio ar gais	Ewros/Doleri
Atgyfeirio Yswiriant Teithio	✓
Yswiriant Teithio ar gais	✗
Gwirio ac Anfon Pasbort	✗
Talu â siec	
Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau	✓
Mae cynhyrchion wedi eu nodi â ✗ ar gael yn Swyddfa Bost Stryd Holmesdale, 53 Stryd Holmesdale, Caerdydd, CF11 7HH	Oriau agor: Llun – Sad 08:00 – 20:00 Sul 09:00 – 17:00

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r dogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilyniir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Ymgysylltu** – pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:

- Ailagor cangen a gaewyd mewn lleoliad newydd
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol pan fydd newidiadau i leoliad man gwasanaeth Swyddfa'r Post
- Adleoli cangen pan fo risg y gallai'r gwasanaeth gael ei golli (e.e. problem gyda'r adeilad). Mae hyn er mwyn osgoi neu wneud yn llai tebygol colli gwasanaeth i gymuned lle cafodd lleoliad arall i gangen ei nodi² a lle nad oes unrhyw ddirywiad o ran cael mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post (wrth fynd i mewn i'r adeilad a'r tu mewn iddo).

Er y bydd y penderfyniad i fwrw ymlaen wedi ei wneud eisoes, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid megis mynediad i'r adeilad a'r drefn y tu mewn. Rhoddwn bedair wythnos o rybudd, neu, os nad yw hynny'n bosibl, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y gallwn.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol³, y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol⁴, i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau mynediad yn y gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

postofficeviews.co.uk

Comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

² Pan fo risg i wasanaeth a fyddai'n arwain at golli gwasanaeth, er mwyn osgoi neu leihau effaith colli gwasanaeth i gymuned efallai y bydd angen i ni wneud penderfyniad masnachol i fwrw ymlaen ag adleoli cangen o Swyddfa'r Post. Os felly, ni fyddwn yn ymgynghori ar adleoli, ond byddwn yn dilyn y broses ymgysylltu ac yn ceisio adborth ar drefniadau mynediad i'r adeilad a'r drefn y tu mewn.

³ Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Llywodraeth Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Plwyf neu Gymuned.

⁴ Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir pawb y cyfeirir atynt yn 3 a 4 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn nhw, fod â diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.